ABC Adfer Ban a Chwm
revitalise hill and valley

# Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol

*Yn cofnodi adeiladau gwerinol anghyfannedd a segur yn ardal orllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chymuned Myddfai*



heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

YMDDIRIEDOLAETH BANNAU BRYCHEINIOG
BRECON BEACONS TRUST

COMMUNITY FOUNDATION IN WALES
SEFYDLIAD CYMUNEDOL YNG NGHYMRU

The Pilgrim Trust

QUAKER HOUSING TRUST

Adfer Ban a Chwm, cwmni elusennol cyfyngedig trwy warant. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr: rhif y cwmni: 6591116; rhif yr elusen: 1124385 www.abcwales.org.uk

Ariannwyd yr ymchwil hon a'r adroddiad hwn a Phrosiect Treftadaeth Llawr Gwlad ehangach ABC gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog, y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, y Quaker Housing Trust a'r Pilgrim Trust.

Cynhaliwyd rhannau o'r prosiect hwn ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

Ysgrifennwyd gan Helen Whitear BA Anrhydedd, MA, Archeolegydd Tirwedd

*Ymddiriedolaeth diogelu adeiladau yw Adfer Ban a Chwm (ABC) a'i nod yw adfer adeiladau gwerinol segur cyn 1919 yn Ne Cymru i safonau cadwraeth ac amgylcheddol uchel, gan ddod o hyd i ddefnyddiau cynaliadwy priodol i bob adeilad unigol, a chefnogi cymunedau lleol i werthfawrogi a sylweddoli ar eu gwerth cynhenid.*

# Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol** 1

**Rhagarweiniad** 2

Cefndir i'r *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* – y rhesymeg

Nodau ac Amcanion y Rhaglen

**Yr Astudiaeth** 5

Methodoleg Cam 1- mapio wrth y desg

Cam 2 Methodoleg – ymweliadau safle

Cyfyngiadau'r astudiaeth

Anawsterau a phroblemau y daethpwyd are eu traws

**Cofnodi adeiladau cymunedol** 10

Cofnodi adeiladau cymunedol digwyddiad 1: Tachwedd 2016

Cofnodi adeiladau cymunedol digwyddiad 2: Ebrill 2017

**Canlyniadau a thrafodaeth** 14

Canlyniadau'r *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol*

Hanes cryno o adael yn ardal yr astudiaeth

Anheddau tlodion cefn gwlad

Enwau lleoedd

**Casgliadau ac argymhellion** 20

Cyflawniadau

Beth a ddysgwyd?

Pam y mae'r adeiladau hyn yn berthnasol?

**Diolchiadau** 24

**Ffynonellau y trowyd atynt a llyfryddiaeth** 25

**Mapiau**

Map sy'n dangos ffin ardal yr astudiaeth, a dosbarthiad o adeiladau a safleoedd a nodwyd

Safleoedd a nodwyd yn ystod Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol ABC (Gogledd PCBB)

Safleoedd a nodwyd yn ystod Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol ABC (De PCBB)

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Rhestr o safleoedd a ddynodwyd yn ystod yr astudiaeth wrth y ddesg |
| Atodiad 2 | Mynegai daearyddol o ymweliadau safle gyda disgrifiadau |
| Atodiad 3 | Taflen cofnodi adeiladau ABC |
| Atodiad 4 | Taflen wybodaeth HLMP ABC ar gyfer ffermwyr a thirfeddianwyr |
| Atodiad 5 | Cynhyrchwyd y lluniadau gan wirfoddolwyr yn ystod y gweithdau cofnodi adeiladau |
| Atodiad 6 | Llanerch-goch |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Ffrwyth *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* (a gynhaliwyd yn 2016-17) ABC yw'r adroddiad hwn – astudiaeth 'graddfa tirwedd' o adeiladau traddodiadol a gwerinol anghyfannedd, segur yn ardal orllewinol (Sir Gaerfyrddin) Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Nod yr astudiaeth yw darparu'r wybodaeth angenrheidiol i alluogi ABC i ddynodi adeilad(au) potensial i weithio arnynt gyda'r gymuned leol, a dangos nifer yr adeiladau anghyfannedd a segur yn ardal yr astudiaeth.

Cynhaliwyd asesiad cychwynnol wrth y ddesg, lle cymharwyd mapiau Arolwg Ordnans (OS) hanesyddol a modern i greu map lleoliadol o adeiladau oedd yn cael eu defnyddio ar ddiwedd y 19$^{eg}$ ganrif ac ar ddechrau'r 20$^{fed}$ ganrif ac sydd bellach yn anghyfannedd, yn dilyn ymweliadau safle â detholiad o adeiladau a nodwyd yn ystod y cam wrth y ddesg.

Rhan o *Raglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* ABC oedd prosiect mewn partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (YAD) a ariannwyd gan Cadw i fapio pob adeilad *mewn bod* (mewn defnydd) traddodiadol (cyn 1915) yn ardal yr astudiaeth.

Roedd y rhaglen fapio'n sail i flwyddyn gyntaf *Prosiect Treftadaeth Llawr Gwlad ABC*, a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Quaker Housing Trust (QHT), Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog a'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru.

Yn ystod y rhaglen, dynododd ABC 281 o dyddynnod anghyfannedd neu segur, yr oedd gan ddim ond 54 ohonynt gofnodion yn bodoli ar eu cyfer, gan arwain at greu 227 o gofnodion newydd sbon o adeiladau segur ac anghyfannedd, a safleoedd adeiladau a breswyliwyd ar ddiwedd y 19$^{eg}$ ganrif yn ardal yr astudiaeth. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos lefel diboblogi gwledig yng Nghymru yn ystod yr 20$^{fed}$ ganrif, ac yn dangos yn glir iawn bod cymunedau gwledig yn sylweddol fwy o faint yn ystod diwedd y 19$^{eg}$ ganrif a dechrau'r 20$^{fed}$ ganrif nag y maen nhw nawr.

Mae'r adeiladau anghyfannedd a nodwyd yn olrhain bywyd y gorffennol diweddar, ac mae sawl un yn gweld edefyn parhad cryf sy'n ymestyn yn ôl trwy hanes Cymru. Maen nhw'n adnodd gwerthfawr, ond sydd yn aml yn cael eu camddeall, sy'n cyflym ddiflannu a'u tangynrychioli at ddibenion deall gorffennol diwylliannol Cymru.

## Rhagarweiniad

### Cefndir i'r *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* – y rhesymeg

Dyfeisiwyd y *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* fel ffordd o ddynodi adeiladau gwerinol anghyfannedd a allai fod yn addas i ABC, gyda chefnogaeth y gymuned leol, i ystyried eu hadfer fel cartrefi fforddiadwy, ar y cyd â chymdeithas tai lleol. Yn ystod blwyddyn gyntaf y *Prosiect Treftadaeth Llawr Gwlad*, bu rhaid i'r model hwn fynd trwy newid, ar ôl i brofion gasglu nad yr opsiwn o weithio gyda chymdeithas tai i ddarparu cartrefi fforddiadwy oedd y defnydd gorau o reidrwydd i rai o'r adeiladau a allai fod yn ymarferol i'w hadfer.

Ceir niferoedd mawr o adeiladau gwerinol segur, anghyfannedd ar draws Cymru, ond mae llawer ohonynt heb eu cofnodi'n fanwl, os o gwbl. Tan yn ddiweddar, roedd mwyafrif poblogaeth Cymru'n byw yn wledig, ond mae hyn wedi newid yn gyflym dros y ganrif ddiwethaf. Mae ffermydd (mawr a bach) a bythynnod wedi'u gadael yn ardal yr astudiaeth, gan adael olion o orffennol heb ei ddogfennu ond diwylliannol diweddar a welir dim ond yn sgil gweddillion adfeiliedig yr adeiladau sydd wedi'u gwasgaru ar hyd y dirwedd. Cynrychiola'r gweddillion hyn gofnod amhrisiadwy o fywyd Cymru ac maen nhw'n rhan bwysig ond a dangynrychiolir o hanes cymdeithasol Cymru. Maen nhw'n cyflym ddiflannu o fapiau ac atgofion, a thrwy eu cofnodi nhw nawr, mae cyfle i'w deall nhw'n gywir cyn iddynt ddiflannu'n llwyr.

Defnyddir y term 'gwerinol' i gyfeirio at adeiladau oedd yn ddomestig yn hytrach nag yn rhai cyhoeddus neu enfawr. Fe'u hadeiladwyd ar gyfer a chan bobl leol gan ddefnyddio deunyddiau a thechnegau adeiladu penodol i'r ardal. Ymdoddant yn gysurus yn y dirwedd y cawsant eu hadeiladu ohoni, ac maen nhw'n rhan ohoni. Yn ne-orllewin Cymru, mae llawer yn dyddio i'r 19eg ganrif, ond mae gan rai tarddiadau cynharach, ac/neu mae elfennau cynharach wedi'u hymgorffori mewn adeiladau diweddarach. Gellir canfod adeiladau gwerinol mewn trefi yn ogystal â chefn gwlad, ond mae'r ardal sy'n cael ei chwmpasu gan y *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* yn (parhau i fod yn) wledig iawn ac adeiladwyd a datblygwyd y rhan fwyaf o'r adeiladau mewn cyd-destun amaethyddol.

Gan mai amaethyddiaeth oedd prif gynhaliwr economi Cymru, mae'r ffordd wledig hon o fyw yn sail i gryn dipyn o draddodiad a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru. Yng Nghymru wledig, mae mwyafrif yr amgylchedd adeiledig wedi'u creu gan ffermydd o amryw feintiau, ac mae llawer o'r rhain yn cynnwys adeiladau gwerinol traddodiadol. Mae'r adeiladau hyn yn un o'r agweddau mwyaf adnabyddadwy a sylweddol weledol o gymeriad y dirwedd, ond maen nhw hefyd yn ddogfennau hanesyddol, ac unwaith maen nhw'n mynd, ni ellir eu disodli.

Yn aml iawn, yr adeiladau hyn yw'r cofnod gorau sydd gennym o fywydau pob dydd pobl a chymunedau cyffredin Cymru. Mae eu goroesiad cyn bwysiced i dreftadaeth ddiwylliannol Cymru â'r adeiladau mwy godidog. Golyga diffyg cydnabyddiaeth o'u pwysigrwydd diwylliannol mai prin y cânt eu diogelu dan gyfraith cynllunio gyfredol (ychydig a restrir), ac mae cynifer wedi'u hesgeuluso ac yn dirywio, ac yn y pen draw dan fygythiad o gael eu colli'n barhaol.

Gadawyd yr adeiladau sydd bellach yn segur ar wahanol adegau, am amryw resymau. Gadawyd llawer ohonynt yn ystod y 19$^{eg}$ ganrif o blaid canolfannau diwydiannol oedd yn tyfu, ond mae diboblogi gwledig wedi parhau ar hyd yr 20$^{fed}$ ganrif a'r 21$^{ain}$ ganrif. Mae thema colli aelodau'r gymuned (yn enwedig pobl iau) i'r cyfleoedd a gynigir mewn ardaloedd mwy trefol yr un mor berthnasol heddiw ac ydoedd ar ddiwedd y 19$^{eg}$ ganrif.

Yn 2015, aeth ABC at Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (YAD) mewn perthynas â'r rhaglen fapio arfaethedig, a chynigiasant eu cefnogaeth i nodau'r prosiect. Cytunwyd y dylai *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* ABC ddod yn rhan o brosiect partneriaeth gyda YAD a ariannwyd gan Wasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Cadw a Llywodraeth Cymru i ddynodi a mapio pob adeilad *mewn bod* cyn 1915 yn ardal yr astudiaeth. Mae YAD wedi cefnogi ABC 'mewn ffyrdd eraill' ar ffurf rhoi defnydd o gyfleusterau a chefnogaeth ymarferol ar hyd y prosiect ac wedi darparu staff pan nad oedd un archeolegydd yn ddigon.

Ymgorfforwyd gwybodaeth o'r astudiaeth hon i'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol, sef cronfa ddata y gall y cyhoedd ei gweld a gynhelir gan YAD.

## Nodau ac Amcanion y Rhaglen

Mae'r *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* yn sail i *Brosiect Treftadaeth Llawr Gwlad* ehangach ABC. Roedd ei nodau fel a ganlyn:

- Dynodi a mapio pob adeilad gwerinol segur ac anghyfannedd a breswyliwyd ac a ddefnyddiwyd ar ddiwedd y 19$^{eg}$ ganrif ac ar ddechrau'r 20$^{fed}$ ganrif, yn ardal orllewinol (Sir Gaerfyrddin) Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn bennaf er mwyn cadarnhau eu nifer a'u dosbarthiad
- Gwella'r cofnodion presennol a ddelir gan y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol lleol trwy ychwanegu rhagor o wybodaeth lle bo'n bosibl (dim ond gwybodaeth brin oedd mewn llawer o'r cofnodion presennol)
- Darparu gwybodaeth fanylach am ganran y safleoedd a ddynodwyd trwy gynnal ymweliadau safle lle bo'n bosibl.
- Diogelu trwy gofnodi gwybodaeth am yr adeiladau hyn a'u hamgylchedd uniongyrchol a allai gael eu colli fel arall.

- Rhoi trosolwg o gyflwr presennol adeiladau dethol
- Darlledu'r wybodaeth a gasglwyd ar raddfa eang trwy gyfres o ddigwyddiadau cymunedol
- Annog ymwneud y gymuned a chymryd rhan ym mhroses cofnodi, deall a gwerthfawrogi adeiladau gwerinol lleol trwy gynnig cyfleoedd i wirfoddoli
- Annog diddordeb yn y safleoedd a ddynodwyd  a gweithio gyda'r gymuned leol i nodi adeiladau a allai fod yn addas i ABC weithio gyda nhw
- Ymhelaethu ar hanes cymdeithasol yr adeiladau a ddynodwyd trwy gasglu atgofion a straeon lleol
- Dangos gwerth treftadaeth a diwylliannol adeiladau gwerinol segur ac anghyfannedd fel rhan o'r dirwedd hanesyddol ehangach a dangos sut gall yr adeiladau hyn lywio ffyrdd o ofalu am ein hadeiladau traddodiadol a gwerinol sydd wedi goroesi i'r dyfodol.

## Yr Astudiaeth

### Methodoleg Cam 1 – mapio wrth y ddesg

Cynhaliwyd dadansoddiad GIS (systemau gwybodaeth ddaearyddol) wrth y ddesg ar gyfer ardal orllewinol (Sir Gaerfyrddin) Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Cwmpasodd ardal yr astudiaeth Gymuned Myddfai (gan gynnwys y rhan sy'n cwympo y tu allan i'r Parc Cenedlaethol), Cymuned Llanddeusant i gyd, a rhannau o Gymuned Llangadog, Cymuned Dyffryn Cennen, Cymuned Cwarter Bach, Cymuned Cwmaman a Chymuned Llandybïe sydd o fewn ffin y Parc Cenedlaethol.

Y mapiau  hanesyddol y trowyd atynt oedd rhifyn cyntaf ac ail rifyn mapiau OS 1:2500 (oddeutu 1887 a 1906). Cymharwyd y rhain gyda'r data map OS cyfredol. Trowyd at gyfanswm o 32 o ddalennau chwarter OS hanesyddol (y rhifyn 1$^{af}$ a'r 2$^{il}$ rifyn).

Trwy ymgynghori â rheolwr y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol ac archeolegydd YAD, crëwyd cronfa ddata System Gwybodaeth Ddaearyddol newydd i brosiect partneriaeth ABC / YAD. Er mwyn sicrhau cysondeb, roedd strwythur tablau ABC a YAD yn cyfateb â'i gilydd a gyda strwythur prif gronfa ddata'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol.

Gwnaeth y rhaniad rhwng adeiladau mewn bod a segur alluogi i orchwylion archeolegydd ABC ac archeolegydd YAD gael eu diffinio'n glir ar gychwyn y prosiect partneriaeth. Tra cofnododd archeolegydd tirwedd ABC yr adeiladau a adawyd, cofnododd archeolegydd YAD yr adeiladau hynny oedd yn bresennol ar 2$^{il}$ rifyn mapiau OS yr ardal sy'n parhau i gael eu preswylio ar hyn o bryd.

Cafodd pob safle newydd a chofnodion presennol y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol ar gyfer adeiladau anghyfannedd eu cofnodi yn y tabl System Gwybodaeth Ddaearyddol newydd hwn. Ychwanegwyd manylion at bob maes gorfodol (math o safle, cyfnod, crynodeb, Dwyreiniadau a Gogleddiadau). Llenwyd y meysydd nodiadau i mewn gan gynnwys nodiadau ABC, nodiadau YAD, disgrifiad byr a disgrifiad hir.

Crëwyd cofnodion sylfaenol ar gyfer pob safle newydd a ddynodwyd yn ardal yr astudiaeth. Roedd lefel y cofnodi gan yr archeolegydd ABC ar y cam hwn yn cynnwys disgrifiad sylfaenol o gynllun y safle fel y mae'n ymddangos ar rifyn 1$^{af}$ ac 2$^{il}$ rifyn OS, ac a ydyw'n ymddangos ai peidio ar y mapiau OS presennol. Gwnaed ymdrech i gofnodi cyflwr y safle ar sail yr hyn oedd yn amlwg ar haenau ffotograffig o'r awyr y system gwybodaeth ddaearyddol bresennol (delweddau lloeren Next Perspectives a delweddau lloeren Google). Nid oedd hyn yn bosibl bob tro gan fod nifer fawr o safleoedd wedi'u cuddio gan goed a thyfiant arall.

Cofnodwyd clystyrau o adeiladau unigol a oedd i weld yn rhan o fferm fel un safle. At ddibenion cysondeb, cofnodwyd enwau safleoedd yn y ffurf gynharaf maent yn ymddangos ar y ffynonellau map y trowyd atynt (fel rheol ar rifyn 1af OS).

O droshaenu haen system gwybodaeth ddaearyddol y grid codau post ar ardal yr astudiaeth, sicrhawyd ymdriniaeth gynhwysfawr o ardal fawr trwy ei thorri i lawr yn feysydd haws eu rheoli at ddibenion dadansoddi.

Yn ystod y broses hon, clustnodwyd safleoedd ar gyfer ymweliadau. Dyma oedd y meini prawf a ddefnyddiwyd ar gyfer dethol: dynodi angen am ragor o gofnodi manylach, sampl cynrychioliadol o ran math o safle, maint a lleoliad, lefel ddiogelu, a hefyd asesiad o addasrwydd posibl am adferiad.

**Gweler ATODIAD 1 – Rhestr o safleoedd a ddynodwyd yn ystod yr astudiaeth wrth y ddesg**

### Cam 2 Methodoleg – ymweliadau safle

Dilynwyd mapio wrth y ddesg gan ymweliadau â safleoedd i adeiladau ar restr fer am gofnodi manylach. Cynhaliwyd cyfanswm o 47 ymweliad safle. Blaenoriaethwyd Cymuned Myddfai yn sgil argymhelliad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Galluogodd yr ymweliadau ar gyfer dynodi adeiladau a allai fod yn addas i'w hadfer gan ABC, gyda chefnogaeth y perchennog a'r gymuned. Mae'r meini prawf a gytunwyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gyfer adeilad segur sy'n addas i'w hadfer, fel a ganlyn:

- Preswyliad blaenorol gan fodau dynol, nid anifeiliaid, heb gadw ffermydd allan
- Tystiolaeth ffisegol dda o adeilad gwreiddiol gan gynnwys ffenestri a drysau
- Rhywfaint o dystiolaeth o'r llinell doeau
- Yn ddymunol, tystiolaeth o strwythur y to
- Tystiolaeth o nodweddion gwerinol lleol
- Hygyrchedd: pellter o ffordd darmac; o wasanaethau

Roedd y cofnodi'n canolbwyntio ar ddulliau a deunyddiau adeiladu, ystod a datblygiad cronolegol bosibl, ac arwyddocâd adeiladau yn eu cyd-destun tirwedd ehangach.

Seiliwyd lefel y cofnodi yn ystod ymweliadau safle ar feini prawf Historic England ar gyfer cofnodi adeiladau: Lefel 1 (Canllaw HE Mai 2016): *Yn ei hanfod, mae **Lefel 1** yn **gofnod gweledol sylfaenol,** yr ychwanegir ati gan yr isafswm gwybodaeth angenrheidiol i ddynodi lleoliad, oedran a math o adeilad. Dyma'r cofnod symlaf, ac fel rheol, ni fydd er ei lles ei hun, ond yn cyfrannu at astudiaeth ehangach. Yn nodweddiadol, bydd yn cael ei gyflawni lle'r amcan yw casglu gwybodaeth sylfaenol am nifer fawr o adeiladau – at ddibenion samplu ystadegol, ar gyfer asesiadau ardal i ddynodi adeiladau at ddibenion cynllunio, a phryd*

*bynnag y mae'r adnoddau'n gyfyngedig a bod rhaid gwneud llawer o waith mewn byr o amser. Gallai hefyd weithredu i nodi adeiladau sydd angen sylw manylach yn ddiweddarach. Fel rheol, bydd arolygon Lefel I yn cael eu gwneud o'r ochr allanol yn unig, ond weithiau gallai ochr fewnol adeilad gael ei gweld er mwyn gwneud archwiliad arwynebol a nodi nodweddion arwyddocaol. Dim ond os bydd amgylchiadau ac amcanion yn caniatáu y bydd unrhyw luniadau'n cael eu cynhyrchu, ac mae'r rhain yn debygol o fod ar ffurf brasluniau.*

Wrth i'r ymweliadau safle fynd yn eu blaen, daeth hi'n glir o fewn yr amserlen a glustnodwyd na fyddai'n bosibl nodi pob tirfeddiannwr, cysylltu â nhw a chael caniatâd ar gyfer pob safle. Felly, blaenoriaethwyd y safleoedd oedd ar/neu'n agos at hawliau tramwy cyhoeddus.

Nid dyddio'r adeiladau oedd prif amcan yr astudiaeth hon. Mae dyddio safleoedd yn seiliedig ar dystiolaeth map, datblygiad saernïol ac ar 'deipoleg' (gan ddefnyddio 'nodweddion' diagnostig i ddarparu ystod dyddiadau tebygol ar gyfer yr adeilad(au)). Heb gymorth cloddio neu ddendrocronoleg (lle mae'r dyddiadau'n deillio o gymryd creiddiau sampl o goed y strwythur), mae'n broblem dyddio adeiladau gwerinol yn agos.

**Gweler ATODIAD 2: Mynegai daearyddol o ymweliadau safle gyda disgrifiadau**

## Cyfyngiadau'r astudiaeth

Oherwydd natur gyflym a'r ardal fawr sy'n cael ei chwmpasu gan y rhaglen fapio, cyfyngodd yr astudiaeth wrth y ddesg y gwaith map hanesyddol i ddefnyddio mapiau OS rhifyn 1$^{af}$ ac 2$^{il}$ rifyn. Ni throwyd at fapiau degwm a manylion dosrannu cysylltiedig oherwydd natur feichus gwneud hyn ar gyfer nifer fawr yr adeiladau a ddynodwyd. Byddai hyn yn gwneud ymchwil bellach ddefnyddiol (efallai ar gyfer y gwirfoddolwyr) a byddai'n galluogi ar gyfer olrhain safleoedd yn ôl i ganol y 19$^{eg}$ ganrif, er mwyn cymharu cyflymder a lefel y gadael yn ystod diwedd y 19$^{eg}$ ganrif a'r 20$^{fed}$ ganrif.

I'r perwyl hwn, penderfynwyd peidio â chynnwys cofnodion ar gyfer bythynnod a ffermydd anghyfannedd a gedwir ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol nad ydynt yn ymddangos ar fapiau OS rhifyn 1$^{af}$ ac 2$^{il}$ rifyn oherwydd byddai'n sgiwio'r set ddata (cofnowyd y safleoedd hyn o amrywiaeth o ffynonellau eraill, gan gynnwys mapiau degwm, mapiau cynharach eraill a gwaith maes).

## Anawsterau a phroblemau y daethpwyd ar eu traws

### Astudiaeth wrth y ddesg

Daethpwyd ar draws rhai problemau gydag elfen wrth y ddesg y rhaglen fapio, a gweithiodd y fethodoleg a gytunwyd rhwng ABC a YAD yn dda.

Yn achlysurol, roedd hi'n aneglur a oedd adeilad yn anghyfannedd neu'n parhau i gael ei breswylio/defnyddio. Os daeth gwall yn glir, roedd cyfathrebu da rhwng archeolegwyr ABC a YAD a

strwythur tabl system gwybodaeth ddaearyddol cyfatebol yn galluogi ar gyfer ailglustnodi safleoedd i'r set ddata briodol.

Gwnaed pob ymdrech i ddal *pob* adeilad anghyfannedd oedd yn cael eu preswylio ar fapiau OS hanesyddol rhifyn cyntaf ac ail rifyn. Gwnaed y broses mor drwyadl â phosibl trwy dorri ardaloedd mawr yn ddarnau haws eu rheoli i'w dadansoddi (trwy droshaenu'r haen system gwybodaeth ddaearyddol grid cod post ar ardal yr astudiaeth). Fodd bynnag, llwyr dderbynia'r awdur y gallai fod rhai safleoedd sydd wedi 'llithro drwy'r rhwyd' a byddwn yn falch iawn o glywed gan unrhyw un a hoffai gael eu hychwanegu at y rhestr safleoedd cofnodedig.

Y prif faen prawf i fapio adeilad anghyfannedd oedd bod ganddo dystiolaeth iddo gael ei ddefnyddio i fodau dynol fyw ynddo. Nid yw'r math o adeilad na'i swyddogaeth yn glir o'r mapiau bob tro, ond at ei gilydd mae modd dynodi adeiladau sy'n cael eu byw ynddynt oherwydd cânt eu henwi ar fap/fapiau hanesyddol.

Lle mae adeilad anghyfannedd erbyn hyn wedi'i nodi'n glir ar fapiau hanesyddol OS, ond heb ei enwi, fe'i cofnodwyd er lles cyfanrwydd, ond dynodwyd y safle'n 'adeilad' yn hytrach nag yn 'fwthyn' neu'n 'fferm'.

Roedd dosbarthiad y math o safle'n broblem i ryw raddau oherwydd nid oes diffiniad cydnabyddedig ar raddfa eang o'r hyn sy'n cyfansoddi 'bwthyn', 'fferm fach' a 'fferm'. Fodd bynnag, roedd diffiniad y prosiect o fath yn gyson ar raddfa fewnol, gyda 'bwthyn' yn dynodi adeilad bach, wedi'i enwi, gyda dim nwy nag un adeilad bach ychwnaegol.

### Cam 2: ymweliadau â safleoedd

Daethpwyd ar draws rhai problemau yng ngham 2 (ymweliadau â safleoedd) y rhaglen fapio:

Yn ddelfrydol, byddai mwy o amser i ymgysylltu â'r gymuned cyn ymweliadau er mwyn i bobl beidio â bod yn amheus o weithgarwch ABC, ac eisiau bod yn rhan o'r prosiect.

Ysgrifennwyd taflen wybodaeth ddwyieithog i ffermwyr a thirfeddianwyr er mwyn esbonio'r prosiect mapio a nodau ABC (gweler atodiad 3). Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y gymuned wledig yn fwy na pharod i helpu. Roedd llawer yn groesawgar ac yn gefnogol a rhoesant o'u hamser a'u gwybodaeth. Fodd bynnag, roedd rhai'n amheus o gymhellion ABC, ac nid oeddent yn awyddus i gymryd rhan.

Bu'n anodd cysylltu a chael gafael ar berchnogion nifer fawr o'r safleoedd a glustnodwyd am ymweliadau, er gwaethaf gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned ehangach ABC ac elfen o 'ffonio'n ddirybudd' a arweiniodd at ganlyniadau cymysg. Dyma un o'r problemau mwyaf y daethpwyd ar eu traws yn ystod y prosiect, yn enwedig mewn amserlen sy'n gyson â gweithgareddau prosiect eraill.

Felly, mae sampl y safle'n ffafrio adeiladau sydd ar hawliau tramwy cyhoeddus neu'n agos atynt. Fodd bynnag, byddai'r agosrwydd hwn o fantais at ddibenion adfer adeiladau.

Cynhaliwyd archwiliadau gweledol o bell lle bo angen.

Golygai natur y tir a natur anghysbell rhai o'r safleoedd fod rhaid osgoi gweithio ar eu pen eu hunain ble bynnag y bo'n bosibl.

Yn ogystal, roedd cydlynu ymweliadau â safleoedd i gyd-daro â mynediad, tywydd ffafriol ac argaeledd gwirfoddolwyr yn anodd o fewn amserlen dynn a chyllideb gyfyngedig. Gohiriwyd rhai ymweliadau safle'n fwriadol er mwyn galluogi ar gyfer cynnwys y gwirfoddolwyr ar ôl y gweithdy cymunedol cyntaf, ond ni ddenodd y digwyddiad hwn cymaint ag y gobeithiwyd, felly arweiniodd at lai o gyswllt ymhlith tirfeddianwyr a llai o wirfoddolwyr na'r disgwyl.

Ni chafodd y broblem o ran yr amser mwyaf priodol a defnyddiol ar gyfer cynnal ymweliadau safle erioed ei datrys. Yn ystod misoedd yr haf, mae'r tywydd yn rhesymol ond mae'r gweddillion ar y llawr yn aml wedi'u claddu dan dyfiant. Yn ystod yr hydref a'r gaeaf mae'r golau'n wael i gofnodi pethau'n ffotograffig, ac ar y cyfan, mae'r gwirfoddolwyr yn llai brwdfrydig (ond ni stopiodd hyn y rhai gwirioneddol gadarn). Yr amser gorau i gofnodi adeiladau yw'r gwanwyn pan fo'r llystyfiant yn isel ac nid oes dail wedi cwympo na gweddillion tyfiant yr haf. Fodd bynnag, dyma'r amser prysuraf yn y calendr ffermio a gall mynediad fod yn broblem gan fod y ffermwyr yn wyna ac yn lloia.

Cymraeg yw iaith gyntaf nifer fawr iawn o bobl yn y cymunedau ffermio gwledig yn rhan orllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Gwnaed pob ymdrech drwy'r prosiect i siarad gydag aelodau'r gymuned leol yn yr iaith fwyaf cysurus iddynt, ac uchelgais y prosiect oedd defnyddio'r Gymraeg i drafod materion lle bo angen ac yn bosibl (er gwaetha'r ffaith mai 'dim ond ail iaith' oedd yr archeolegydd). Yn aml iawn, gwnaeth siarad â phobl yn Gymraeg wahaniaeth mawr rhwng ymateb negyddol a chadarnhaol i'r *Rhaglen Fapio*. Mae'n hollbwysig peidio â diystyru'r cysylltiadau hanfodol rhwng iaith, tirwedd, adeiladau a'r atgofion cysylltiedig sydd gan bobl leol.

# Cofnodi adeiladau cymunedol

Fel rhan o *Brosiect Treftadaeth Llawr Gwlad* ABC, trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau cymunedol gan swyddogion prosiect ABC ac archeolegydd tirwedd ABC. Recriwtiwyd gwirfoddolwyr o'r ardal leol i helpu cofnodi adeiladau a ddynodwyd yn ystod y *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol*. Cynhaliwyd dau brif ddigwyddiad cofnodi adeiladau ar y cyd â DAT. Yn ogystal, cynorthwyodd y gwirfoddolwyr gydag ymweliadau safle a gynhaliwyd gan archeolegydd tirwedd ABC.

## Digwyddiad cofnodi adeiladau cymunedol 1: Tachwedd 2016

Roedd ABC a'r partneriaid prosiect DAT yn awyddus i ddenu gwirfoddolwyr wrth gofnodi adeiladau. Mae DAT yn ymroi i estyn allan o fewn elfen a ariennir gan CADW y prosiect partneriaeth. Tynnwyd sylw'r staff yn Rheoli Treftadaeth DAT at achos Fferm Lan (Cymuned Dyffryn Cennen), ar ben gorllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Dynodwyd yr adeilad hwn gan Cadw yn ddiweddar ac roedd yn y broses o gael ei restru. Cysylltwyd â'r perchennog a'r ffermwr-denant a rhoesant ganiatâd caredig i ABC a DAT fynd ati i gofnodi adeiladau gyda gwirfoddolwyr o'r gymuned ar raddfa fach dros ddeuddydd ym mis Tachwedd. Yn ystod y deuddydd ofnadwy o oer ym mis Tachwedd, cynorthwywyd pum gwirfoddolwr lleol (pob un yn medru'r Gymraeg) gan un archeolegydd DAT ac archeolegydd ABC i lunio darluniau wedi'u mesur o flaenluniau'r tŷ, y beudy a'r ysgubor, yn ogystal â chofnod ffotograffig cynhwysfawr, ac arolwg topograffig cyflym o'r fferm (gweler yr atodiadau). Darparwyd copïau o fapiau hanesyddol y safle i'r gwirfoddolwyr, a thrafodwyd deall yr adeiladau trwy eu datblygiad saernïol, a phwysigrwydd yr hanesion llafar sy'n gysylltiedig ag adeiladau.





**Gwyrfoddolwyr yn Lan**

Mae Fferm Lan wedi bod yn wag am gyhyd ag y mae'r ffermwr-denant yn ei gofio (yn ystod ei flynyddoedd iau, mae'n cofio storio tatws yno i'w gwerthu yn Rhydaman gerllaw gan fod y llawr pridd yn addas i'w cadw nhw'n ffres ac mewn cyflwr da). Mae'r lefel gadwraeth eithriadol o nodweddion cynnar o ganlyniad i'r ffaith y bu 'Lan' yn wag am ran olaf yr 20$^{fed}$ ganrif o leiaf. Fodd bynnag, dylid nodi, petai wedi colli ei do, byddai'r adeilad wedi dirywio'n gyflym, felly gellir priodoli ei oroesiad yn uniongyrchol i ymdrechion y ffermwr-denant. Mae ei ofal am adeiladau gwerinol Lan yn enghraifft ddisglair o gadwraeth 'dyner'.

Er y byddai Lan yn gweddu'n ddelfrydol i ddulliau ABC, mae ei berchennog presennol yn frwdfrydig ynghylch ei bwyntiau gorau ac yn bwriadu gofalu am yr adeilad at ei ddibenion ei hun, felly dymunwn yn dda iddo gyda'i ymdrechion.

### Cofnodi adeiladau cymunedol digwyddiad 2: Ebrill 2017

Ar ddydd Sadwrn 29 Ebrill 2017, cynhaliwyd diwrnod cofnodi adeiladau gan archaeolegydd tirwedd ABC, gyda chymorth dau archaeolegydd staff o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (YAD). Rhoddwyd cyfarpar diogelwch, arolwg safle a chofnodi ar fenthyg yn garedig i'r digwyddiad gan bartneriaid a chefnogwyr y prosiect, YAD.

Nod y diwrnod cofnodi adeiladau oedd rhoi cyfle i wirfoddolwyr cymunedol ddysgu sut mae gwneud arolwg o hen adeiladau, eu cofnodi a'u deall yn archaeolegol, a hynny gan hyrwyddo arfer gorau iechyd a diogelwch wrth weithio mewn adeiladau anghyfannedd a segur ac o'u cwmpas. Ei nod oedd hybu ymwybyddiaeth am arwyddocâd hanesyddol a phwysigrwydd diwylliannol adeiladau gwerinol anghyfannedd a segur a'u gwerth yn ystorfeydd gwybodaeth gymdeithasol am y gymuned leol.

Cafodd nifer o adeiladau a nodwyd yn ystod *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* ABC eu rhoi ar restr fer am eu bod yn addas ar gyfer mynediad a hyfforddiant i grŵp o 10 o wirfoddolwyr. Roedd y gymuned leol yn Llanddeusant yn ddefnyddiol dros ben i ABC a, gyda'u cymorth hwy, trefnwyd mynd i mewn i'r adeiladau er mwyn eu cofnodi, gyda pherchennog Llanerch-goch a pherchennog Tyle Bach (y ddau'n adeiladau gwerinol segur yng Nghymuned Llanddeusant). Roedd y perchenogion yn ddigon caredig i roi caniatâd i ABC gynnal hyfforddiant cofnodi adeiladau gyda gwirfoddolwyr cymunedol.

Dechreuodd y diwrnod am 9.30am yng Nghanolfan Tywi yn Llandeilo, gyda chyflwyniad dan do i adeiladau gwerinol a thechnegau cofnodi, ac iechyd a diogelwch safle a gyflwynwyd gan archaeolegwyr YAD ac ABC. Daeth naw gwirfoddolwr cymunedol, a chafodd pawb becyn gwybodaeth am y dydd yn cynnwys manylion safle, copïau o fapiau hanesyddol o'r safleoedd i ymweld â hwy, gwybodaeth gyffredinol am adeiladau traddodiadol a gwerinol a ffurflenni cofnodi adeiladau ABC (atodiad 3).



**Gwirfoddolwyr ABC yn gwneud braslun cynllunio o'r safle ac yn llenwi taflenni cofnodi adeilad (grŵp pellach) yn fferm Tyle-bach**

Aeth y grŵp yn ei flaen i Landdeusant, lle bu'r Hostel Ieuenctid lleol yn cynnig lle a chyfleusterau am y dydd. Yn ystod sesiwn bore a phrynhawn a rannwyd rhwng y ddau safle, rhoddwyd sgyrsiau cyflwyniadol i'r gwirfoddolwyr am y safle penodol, ac yna fe'u rhannwyd yn grwpiau o dri, a phob un yn cael ei arwain gan archaeolegydd proffesiynol. Cafodd y grwpiau eu cylchdroi i sicrhau bod pob un grŵp yn cael profiad o ddwy wahanol agwedd ar gofnodi adeiladau, gan gynnwys llunio brasluniau cynllunio wedi'u mesur, edrych ar ddatblygiad strwythurol adeilad yn ei gyd-destun tirwedd a llunio disgrifiadau safle, a dysgu sut mae creu cofnodion ffotograffig cynhwysfawr o safle. Drwy gydol y dydd, pwysleisiwyd pwysigrwydd cyd-destun tirwedd yr adeilad, a'r agweddau llai cyffyrddadwy ar hanes adeilad (fel traddodiadau llafar). Roedd hefyd digonedd o drafod am nodweddion amgylcheddol cynhenid adeiladau traddodiadol, am bwysigrwydd deall eu ffabrig a'u datblygiad, ac am berthnasedd y dull hwn i'r rheini sy'n cael eu defnyddio o hyd yn ogystal â'r rheini sydd wedi'u gadael.

Dychwelodd y grŵp i Hostel Ieuenctid Llanddeusant am ginio a diodydd poeth, ac ar ddiwedd y dydd mwynhawyd bwyd blasus yr oedd mawr ei angen yng Nghaffi Cymunedol Myddfai wrth adolygu'r diwrnod, a'r hyn a ddysgwyd. Diolchodd ABC i'r gwirfoddolwyr, a'u brwdfrydedd a'u diddordeb amlwg yn y pwnc wedi gwneud y diwrnod cofnodi adeiladau yn bleser pur, ac i aelodau staff YAD yr oedd eu dealltwriaeth a'u hymroddiad wedi gwneud y diwrnod mor llwyddiannus. Roedd yr adborth dilynol gan y gwirfoddolwyr yn gadarnhaol dros ben, a dangoswyd diddordeb diffuant mewn rhagor o'r mathau hwn o ddigwyddiad.





**Gwirfoddolwyr ABC yn dysgu am ddatblygiad safle yn fferm Llanerch-goch**

## Canlyniadau a thrafodaeth

### Canlyniadau'r *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol*

Wrth gwblhau'r elfen wrth y ddesg o'r *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol*, dynodwyd yn ardal yr astudiaeth (oddeutu 230 cilometr sgwâr), 281 o fythynnod, ffermydd bach a ffermydd mawr segur neu anghyfannedd. Roedd 227 o'r rhain heb eu cofnodi'n flaenorol. O'r cyfanswm o 281, saif 79 ohonynt yng Nghymuned Myddfai, roedd 57 o'r rhain yn gofnodion newydd sbon a 22 yn gofnodion cyfredol.

Mae Rhif Cofnod Sylfaen unigryw bellach wedi'i gofnodi i bob safle newydd ac fe'u hymgorfforwyd yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Caiff pob safle newydd ei leoli'n gywir gyda Chyfeirnod Grid Cenedlaethol 8 ffigur, ac mae wedi cael disgrifiad safle sylfaenol yn y Gymraeg a'r Saesneg sy'n ymddangos ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Ychwanegwyd gwybodaeth ychwanegol at gofnodion y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol blaenorol lle bo'n bosibl.

Arweiniodd y bartneriaeth rhwng ABC a YAD at 'ddata gwaelodlin' ar gyfer pob adeilad hanesyddol mewn bod a segur yn ardal orllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Niferoedd ar gyfer YAD).

Cynhaliwyd 47 ymweliad â safleoedd ar y rhestr fer yn ystod y broses mapio wrth y ddesg, gan archeolegydd tirwedd ABC (llawer gyda help y gwirfoddolwyr cymunedol) a arweiniodd at asesiad o botensial pob safle i'w hailddefnyddio, a rhagor o wybodaeth am y safleoedd a'u cyflwr presennol. Ychwanegir gwybodaeth heb fod yn sensitif a gasglwyd yn ystod ymweliadau â safleoedd at gofnodion safleoedd unigol sydd bellach yn rhan o'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol o ganlyniad i'r astudiaeth hon.

### Trafodaeth –

### Hanes cryno o adael yn ardal yr astudiaeth

Ymddengys y cyfeiriad cynharaf at adeiladau fferm yng Nghymru yn y cyfreithiau a gyfundrefnwyd gan y Brenin Hywel Dda. Soniant am feudy, ysgubor gyda waliau pleth, buarth gwartheg, penty, twlc a chorlan ddefaid. Parhaodd y cyfuniad hwn o adeiladau yn nodweddiadol o ffermydd bach a chanolig eu maint hyd at ddiwedd y 19$^{eg}$ ganrif, ac felly mae'n cynrychioli parhad dros gyfnod o ddeng mlynedd o leiaf (Wiliam 1986).

Tystia nifer fawr o'r adeiladau a ddynodwyd yn ystod rhaglen fapio ABC y parhad hir hwn, ac mae rhai'n parhau i gael eu defnyddio heddiw (cofnodwyd gan YAD), nid yn unig o ran ffurf a swyddogaeth ond hefyd yn debygol iawn wrth leoli. Mae llawer o'r safleoedd yn ganolfannau sawl

cam, sy'n ymgorffori adeiladau o wahanol oedrannau (gyda graddoli, nodweddion cysylltiedig, ffiniau a gwrthgloddiau, gan ffurfio 'palimpsest' neu 'ddogfen haenog' y gellir ei darllen a'i deall o'i chofnodi'n ofalus).

Dim ond ciplun mewn amser yw'r ugain mlynedd rhwng rhifyn cyntaf ac ail rifyn y mapiau OS (1887 a 1906), ac er gwaethaf edefyn parhad cryf, mae tystiolaeth o newid o fewn y cyfnod byr hwn. Caiff ffermydd eu gadael, mae eu morffoleg yn newid, mae adeiladau'n diflannu ac yn achlysurol, mae ffermydd yn datblygu o ychwanegu adeilad newydd.

Fodd bynnag, yn y ffenestr amser fach hon, y newid amlycaf ac amlaf yw gadael. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y rhaglen mapio tirwedd hanesyddol yn cefnogi ac yn cadarnhau tuedd gyffredinol o ddiboblogi gwledig yng Nghymru yn ystod yr 20fed ganrif. Ychydig enghreifftiau sydd o ffermydd newydd yn cael eu codi ar safleoedd newydd y tu mewn i ardal yr astudiaeth. Ar y cyfan, preswyliwyd safleoedd a adawyd yn ystod yr 20fed ganrif ar yr un pryd â'r rhai sy'n parhau i gael eu preswylio. Ychydig iawn sydd wedi'u disodli, neu eu hail-breswylio. Mae hyn yn dangos yn glir iawn yr oedd cymunedau gwledig yn sylweddol fwy o faint yn ystod diwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif nag y maen nhw nawr.

Mae ffigurau poblogaeth Plwyf Myddfai yn fwy neu lai'n gynrychioliadol o'r dirywiad ehangach mewn ardaloedd gwledig. Ym Myddfai, *The changes in parish population have been rather dramatic, showing a peak of 1192 persons in 1831 and since that time but more especially since 1861 there has been a steady decline to a figure of 338 in 1981. Such has been the decline, that the population of the present decade is about a third of that in the period 1831 - 1861* (DB James 1991). Yn ei lyfr 'Myddfai - it's Land and Peoples', mae James yn dyfalu ynghylch sut byddai'r plwyf wedi bod gyda thair gwaith y boblogaeth gyfredol, ac yn meddwl sut daeth y newidiadau hyn i fod.

Er bod rhaid bod cyfuniadau penodol o amgylchiadau wedi arwain at adael pob fferm neu fwthyn unigol, yn yr astudiaeth 'graddfa tirwedd' hon, bu hi ond yn bosibl codi ar y tueddiadau cymdeithasol ehangach a achosodd pobl i adael cynifer o safleoedd yn ystod diwedd y 19eg ganrif i'r 20fed ganrif. Fodd bynnag roedd y dirywiad parhaus yn y boblogaeth, a fu'n nodwedd o rannau gwledig o Gymru tan heddiw, ar waith cyn yr arolwg ar gyfer y mapiau OS rhifyn cyntaf yn ystod diwedd y 19eg Ganrif. Byddai rhagor o ymchwil i ffynonellau map cynharach (e.e. mapiau degwm ac ati) yn rhoi mwy o oleuni ar gyflymder y gadael, ac efallai os bydd unrhyw uchafbwyntiau adnabyddadwy'n cyd-daro â digwyddiadau hanesyddol cofnodedig.

Gorfododd twf cyflym yn y boblogaeth ar ddechrau'r 19eg ganrif i nifer fawr breswylio mewn ardaloedd sydd bellach yn cael eu hystyried yn 'ymylol', yn enwedig ardaloedd yr ucheldir. Tyfodd 'aneddiadau sgwatwyr' ar dir comin, a chredir eu bod yn cynrychioli'r traddodiad Tŷ Unnos. Petai'r

'tai unnos' hyn wedi'u sefydlu, bydden nhw wedi'u cofnodi'n aneddiadau parhaol. Dynodwyd sawl enghraifft o aneddiadau a allai fod wedi deillio yn y ffordd hon, yn enwedig ar lethrau deheuol y Mynydd Du. Ymddangosant yn nodweddiadol fel adeiladau wedi'u marcio a'u henwi ar fapiau OS rhifyn 1af y tu mewn i diroedd caeëdig wedi'u cerfio o dir agored.

Y prif faen prawf ar gyfer mapio adeilad oedd bod ganddo rywfaint o dystiolaeth o ddefnydd byw gan fodau dynol. Fel rheol, caiff adeiladau a breswyliwyd fel cartrefi eu henwi ar fapiau hanesyddol, ond mae adeiladau petryal bach, heb eu henwi (weithiau mewn tiroedd caeedig cysylltiedig) yn gymharol niferus ar fapiau OS rhifyn 1af.

Hwyrach fod rhai'n cynrychioli ysguboriau maes sy'n gysylltiedig â fferm gerllaw, ond yn aml maen nhw'n llociau ac yn gorlannau defaid. Dyma brif weddillion ffisegol ffermio defaid, elfen bwysig o amaethyddiaeth Cymru ers sawl canrif, sydd heb adael rhyw lawer o effaith amlwg yn yr adeiladau a gynrychiolir mewn ffermydd. Mae'r rhan fwyaf o'r llociau ar wahân ir ardal ffermio, ac i'r perwyl hwn, nid yw eu swyddogaeth wreiddiol yn glir bob amser. Byddai pentwr defnyddiol o gerrig chwarel wedi'u hailddefnyddio fel corlan ddefaid, ac felly hyd yn oed pan fydd safleoedd wedi'u marcio'n 'gorlan' neu'n 'drwyth defaid' ar fapiau OS hanesyddol (heb eu cofnodi fel rhan o'r astudiaeth), nid yw hyn yn diystyru'r posibilrwydd y gallai rhai fod yn anheddau segur wedi'u hailddefnyddio o gyfnod cynharach.

Er gwaethaf natur ddigroeso i bob golwg llwyfandiroedd mynyddig de Bannau Brycheiniog, ceir tystiolaeth archeolegol am aneddiadau mwy parhaol yma yn ystod canrifoedd cynharach (er enghraifft yn NGR SN7437 1521). Preswyliwyd llawer o safleoedd a gofnodwyd yn ystod y prosiect 'Aneddiadau Gwledig Anghyfannedd', a ariannwyd gan Cadw, yn ystod 'optimwm hinsoddol' yr oesoedd canol, ac yn y cyfnod cynnar ar ôl yr oesoedd canol (ffenestr fer o dywydd cynhesach a roddodd gyfleoedd i fanteisio ar ardaloedd yr ucheldir).

Erbyn diwedd y 19eg ganrif, roedd y safleoedd hyn wedi'u gadael ers amser hir, ac mae ucheldiroedd y Mynydd Du ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog bron yn amddifad o aneddiadau (fel y gellir gweld o'r map dosbarthiad cyffredinol - mae'r 'twll' yn cyfateb i'r llwyfandir uchel). Fodd bynnag, mae tystiolaeth o'r astudiaeth hon yn tynnu sylw at y posibilrwydd fod rhai safleoedd aneddiadau'r ucheldir a breswyliwyd yn barhaol yn ystod yr 'optimwm hinsoddol' canoloesol yn anghyfannedd ac yna wedi'u hailbreswylio yn ystod y codiadau yn y boblogaeth yng nghyfnod cynharach y 19eg ganrif. Efallai mai dyna a ddigwyddodd yn 'Tŷ Mynydd' (NGR SN6854 1495, rhif ABC 45), a ymwelwyd yn ystod y prosiect, yr ymddengys bod ei ffiniau cysylltiedig yn fwy hynafol na tharddiadau 'anheddiad sgwatwyr' y 19eg ganrif.

Byddai safleoedd a barhawyd i'w defnyddio'n ysbeidiol i'w preswylio'n dymhorol yn y canrifoedd rhyngol (efallai fel cysgodfannau haf dros dro neu 'hafotai') wedi ffurfio mannau cychwyn amlwg ac

ymarferol i ail-greu aneddiadau pan fo cynnydd mewn poblogaeth wedi cynyddu'r pwysau ar dir amaethyddol.

Byddai bywyd ar yr uchder hwn wedi bod yn agored iawn i bwysau'r gaeafau garw, hafau gwael a llai o gynaeafau, ac yna newyn ac afiechyd o ganlyniad. Arweiniodd y ffordd o fyw serth hon at adael o blaid amodau haws rhywle arall. Roedd rhai fel Tŷ Mynydd ar lethrau deheuol y Mynydd Du mor agos at dynfa diwydiannu a threfoli yn uniongyrchol i dde Cwm Aman mai ychydig a oroesodd i'r 21ain ganrif.

## Anheddau tlodion cefn gwlad

Mae llawer o'r adeiladau anghyfannedd erbyn hyn a ddynodwyd yn ystod y *Rhaglen Fapio*'n wirioneddol fach iawn. Mae'r ffaith iddynt gael eu cofnodi gydag enwau ar fapiau hanesyddol yn dangos mai cartrefi oedden nhw. Gan mwyaf, nid oes tai allan cysylltiedig wedi'u marcio gyda nhw, ar wahân i adeilad ychwanegol bychan achlysurol a allai gynrychioli twlc, cwt ieir, neu dŷ bach o bosibl.

Gallwn fod bron yn sicr mai bythynnod tlodion y wlad yw'r rhain - grŵp cymdeithasol ar y cyrion, sy'n cael eu tangynrychioli'n hanesyddol, nad oroesodd eu cartrefi mewn niferoedd mawrion, ond sydd serch hynny'n rhan arwyddocaol iawn o'r boblogaeth ar raddfa rifol a chymdeithasol.

Yn aml iawn, roedd bywyd yn golygu 'byw o'r llaw i'r genau' ac mewn adegau anodd, daeth llawer yn ddibynnol ar gardod y plwyf. Dengys cofnodion Plwyf Myddfai ym 1818-19, fod y rhent am 27 aelwyd ar wahân wedi'i dalu o dreth y tlodion (James 1991). Gwnaeth 'Cyfraith y Tlodion' (a gyflwynwyd ar ddechrau'r 17eg ganrif) hi'n orfodol darparu ar gyfer tlodion y plwyf trwy godi treth ar bob preswyliwr eiddo. Wrth reswm, tueddai plwyfi i ofalu am eu pobl eu hunain a neb arall, a byddai'r plwyfolion wedi rhoi pwysau i leihau treth y tlodion yr oedd rhaid iddynt ei thalu. Rhoddodd y 'Ddeddf Sefydlogi' (1662) rymoedd cyfreithiol i ddiarddel neu symud pobl oedd heb eu geni y tu mewn i'r plwyf. Golygai newid i'r Ddeddf hon ym 1846 nad oedd unrhyw un oedd wedi preswylio yno am bum mlynedd yn gallu cael eu troi allan, ond daliwyd ati i symud pobl oedd neu a oedd yn debygol o fod yn ddibynnol ar gardod.

Mae'n bosibl fod y ddeddfwriaeth hon yn gyfrifol am orfod gadael rhai o'r anheddau llai sylweddol a enwyd ar fapiau rhifyn 1af ac 2il rifyn OS.

Grwpiodd 'Deddf Diwygio Cyfraith y Tlodion' (1834) y plwyfi gyda'i gilydd yn 'undebau' at ddibenion gweinyddu cyfraith y tlodion. Arweiniodd wyrcws 'Undeb Llanymddyfri', a sefydlwyd yn y 1930au, at ddau gategori o 'dlotyn' – y rhai oedd yn breswylwyr yn y wyrcws (yn cael 'cymorth dan do'), a phreswylwyr yn eu cartrefi eu hunain (yn cael 'cymorth tu allan').

Er bod enwau a rhai manylion prin yn ymddangos mewn rhestrau o'r adeg hon, mae'n bosibl iawn mai'r adlewyrchiad gorau o fywydau'r rhai a gafodd 'cymorth tu allan' yw gweddillion ac olion archeolegol eu hanheddau.

Cyflogwyd sawl bythynnwr a ffermwr bach gan yr ystadau mawrion, ac roeddent yn hynod ddibynnol ar ewyllys da a chefnogaeth barhaus eu landlordiaid i ychwanegu at fodolaeth dila. Awgryma'r dyfyniad canlynol bolisi bwriadol gan rai landlordiaid i ailsefydlogi mewn ardaloedd diwydiannol oedd yn tyfu: *When they found coal and wanted to expand…….there was nobody here to work the coal. Now as the boys were coming to work on the different farms, the landowners would give them some of the produce that was coming off the farm, the milk and potatoes and such like, because they raised big families on practically no wages….. So to get the labour, they stopped giving the extra produce to keep the family. Therefore the young men had to come up from the country, from their home counties, to South Wales for the mining. From north, south east and west they came. That was the way in which they got the labour…… and even today you've got Dai Cardi, and Bob Pemb and Tom and Roddy Tregaron. You had the name of the place that they came from…… But then that's how people were known. Llandeilo, that's another chap who used to work in the Ffaldau. Well, then, to get the labour they more or less starved the people out. My grandfather was of a family of six or seven in Pembrokeshire. Well, a couple of them brothers had to go. They walked to, and found work in, Maerdy. That would be about 1885 or 1890, something like that. But they used to walk over the mountains and change their jobs, and change their lodge.* (Will Trigg yn Davies, M. (Gol.) 1992)

Er bod y dynfa o well bywyd yn yr ardaloedd oedd yn prysur ddiwydiannu fel Brynaman a Rhydaman gerllaw yn aml yn gyfrifol am gryn dipyn o'r gadael, ymddengys bod o leiaf un enghraifft lle arweiniodd dirywiad diwydiant at adael dwys mewn ardal benodol. Ar ymyl de-orllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn agos at anheddiad presennol y Square and Compass (NGR: SN6451 1749), mae rhifyn cyntaf OS ym 1887 yn dangos crynodiad dwys o fythynnod a ffermydd bach mewn tirwedd lled-ddiwydiannol ond sydd dal yn wledig gan mwyaf. Mae'n dirwedd, sydd ar wahân i'r diwydiannu dwys i'r de-ddwyrain, a nodweddir yn ystod diwedd y 19eg ganrif gan ffermydd bach a bythynnod gyda thiroedd caeëdig bach cysylltiedig (mae gan rai ohonynt ddilysnodau 'aneddiadau sgwatwyr' sy'n tresmasu ar dir comin). Ymddengys mai cymuned a gefnogwyd gan y felin a'r efail yn Llandyfan (Rhif SAM Cadw CM225) yw hwn ond mae hefyd yn dibynnu ar ffermio graddfa fach i ychwanegu at unrhyw incwm o'r felin/ efail. Ymddengys bod dirywiad y felin a'r efail yn uniongyrchol gysylltiedig â lefel uchel gadael adeiladau llai o faint, felly mae'r ardal bellach yn wledig ei chymeriad, gyda rhywfaint o forffoleg yr aneddiadau 'proto-diwydiannol' wedi goroesi. Mae gan yr ardal hon hanes cymunedol diddorol iawn a fyddai'n elwa ar astudiaeth fanylach (efallai gan wirfoddolwyr cymunedol neu grŵp hanes lleol).

### Enwau lleoedd

Er cysondeb, cofnodwyd enwau adeiladau fel y maen nhw'n ymddangos cyntaf ar y mapiau OS hanesyddol (yn y rhifyn 1af fel rheol; ychydig enghreifftiau sy'n ymddangos ar yr 2il rifyn am y tro cyntaf). Ymddengys bod y rhan fwyaf o'r enwau sydd wedi goroesi i ymddangos ar fapiau cyfredol, neu'r rhai sy'n cael eu cofio gan y gymuned leol yn fersiynau wedi'u rhesymoli, eu llygru neu weithiau wedi'u cywiro o'r un enw sy'n ymddangos ar rifyn 1af OS, gan ddangos parhad ac atgof lleol sy'n rhedeg trwy'r 100 mlynedd diwethaf.

Lle mae enwau adeiladau anghyfannedd wedi'u colli i fapiau cyfredol ac i atgofion lleol, gall cofnodi'r enw'n ofalus fel yr oedd yn ymddangos pan oedd yn cael ei breswylio brocio'r cof, a rhoi cyfle i ganfod cartrefi a ddynodwyd trwy hanes teuluoedd ac ymchwil arall.

Ond mae enwau lleoedd, yn enwedig enwau cartrefi'n cynnig golwg wirioneddol werthfawr i'r ffordd yr edrychodd pobl ar eu lle eu hunain o fewn y dirwedd o'u cwmpas. Mae enwau mwyafrif y cartrefi – ffermydd mawr a bach, a bythynnod yn 'dopograffigol', sydd yn aml yn disgrifio safle'r adeilad yn y dirwedd, a'i berthynas gyda nodweddion naturiol gerllaw (er enghraifft 'Tŷ Mynydd, Pen-rhiw, Tyle Bach ac ati.).

Mae cyfle i ysgrifennu llawer mwy ar hyn, ond mae y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn. Un o ganlyniadau defnyddiol yr ymchwil oedd coladu a chasglu enwau'r holl safleoedd anghyfannedd yn ardal yr astudiaeth fel adnodd ar gyfer astudiaeth bellach.

## Casgliadau ac argymhellion

### Cyflawniadau

Mae *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* ABC wedi cyflawni nifer fawr ond nid pob un o'i nodau.

Ar ddechrau'r prosiect, awgrymwyd y gallai fod 'cryn dipyn' o adeiladau anghyfannedd yn ardal yr astudiaeth. Datgelodd y cam mapio cychwynnol yn gyflym fod hyn yn ddatganiad rhy gynnil. Wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, a nifer y safleoedd anghyfannedd dynodedig godi'n raddol, daeth i'r amlwg petai ABC yn gallu achub un neu ddau o'r adeiladau a nodwyd, effaith fychan fyddai'n ei chael. Daeth y syniad o 'ddiogelu trwy gofnodi' ar gyfer nifer fawr o safleoedd heb eu cofnodi'n flaenorol yn fwyfwy pwysig.

Mae llawer o'r safleoedd hyn wedi goroesi fel dim byd mwy nag ambell i dwmpath mewn caeau, ac efallai mai canlyniad mwyaf dadlennol yr astudiaeth yw'r nifer aruthrol o adeiladau sydd bron wedi diflannu'n llwyr yn ystod y can mlynedd diwethaf. Yn ddiweddar, mae llawer mwy wedi gwaethygu rhwng yr adeg pan sylweddolodd sylfaenwyr ABC ar eu cyflwr yn y lle cyntaf, a phan aethant i ailymweld â nhw (ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach) yn ystod *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol ABC*.

Aeth y rhaglen fapio ati i ddynodi adeiladau a allai fod yn bosibl i ABC eu hadfer er budd y gymuned. Nid yw'r ffaith bod yr ychydig adeiladau mewn sefyllfa i gyrraedd y rhestr hon yn golygu bod y rhaglen fapio wedi methu, ond mae'n amlygu trychineb – ychydig iawn sydd wedi goroesi gyda digon o wybodaeth i'w hadfer heb orfod rhagweld eu strwythur a heb fod yn atebol i set ddata amherffaith ac anghyflawn.

Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* ABC yn helpu darparu darlun llawnach o'r dirwedd wledig (dwyster a phatrwm preswyliad) yn ardal yr astudiaeth ar ddiwedd y 19eg ganrif. Mae'n dangos sut mae'r dirwedd hon wedi esblygu dros y 100 mlynedd diwethaf, a'r adeiladau (a'r cymunedau) a gollwyd. Mae'n ychwanegu at ein dealltwriaeth bresennol o gyfraddau gadael a newid, ac yn cadarnhau gyda thystiolaeth ffisegol ar y tir y bu tirwedd wledig gorllewin Bannau Brycheiniog ar ddiwedd y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif yn llawer mwy poblog nag ydyw heddiw.

Roedd y rhaglen fapio'n sail i ddigwyddiadau cymunedol *Treftadaeth Llawr Gwlad* ABC. Tynnodd y digwyddiadau hyn sylw at werth treftadaeth a diwylliannol adeiladau gwerinol anghyfannedd, ac anogwyd a galluogwyd cyfranogiad cymunedol yn y gwaith o'u cofnodi a'u deall. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys diwrnod agored 'Myddfai Hanesyddol', gweithdai plant mewn ysgolion yn Llanymddyfri a Llangadog, gweithdai cofnodi adeiladau archeolegol, 'Cymhorthfa Hen Dai' a chafodd pob un eu cynnal yn ardal yr astudiaeth. Cynhaliwyd cystadleuaeth ac arddangosfa

ffotograffig yn dwyn y teitl 'Adfail' hefyd, a gyrhaeddodd cynulleidfa ehangach, ac anogwyd ceisiadau oedd yn dangos adeiladau gwerinol anghyfannedd ar hyd de-orllewin Cymru. Mae'r ceisiadau a ddaeth i law'n dangos yn glir bod y mater hwn yn berthnasol i ardaloedd a chymunedau gwledig y tu allan i ardal yr astudiaeth, ac ar hyd a lled Cymru. Manylir ar ddigwyddiadau cymunedol ABC mewn adroddiad ar wahân ar y *Prosiect Treftadaeth Llawr Gwlad*.

### Beth a ddysgwyd?

Rhydd adeiladau traddodiadol a gwerinol gyswllt diriaethol a hygyrch â'r gorffennol - mae llawer o bobl yn dal i fyw mewn un. Gallen nhw a dylen nhw fod yn rhan fwy cydnabyddedig o hunaniaeth y gymuned yng Nghymru. Ceir cysylltiad cynhenid rhwng yr adeiladau hyn a'r dirwedd - roedden nhw'n lletya'r bobl ac yn meithrin y diwylliant a greodd y dirwedd a welwn heddiw. Cydnabyddir ein tirweddau gwledig ar raddfa eang yn y Parc Cenedlaethol ac mewn sawl ardal arall o Gymru am eu harddwch 'naturiol' eithriadol. Deillia llawer o'r harddwch hwn yn sgil miloedd o flynyddoedd o weithgarwch dynol - amaethyddol gan mwyaf. Yn anffodus, teimla nifer fawr yn y gymuned ffermio (yn aml, disgynyddion y teuluoedd a helpodd greu'r tirweddau hyn, ac a gododd yr adeiladau a'u cynnal yn ofalus am genedlaethau) bellach eu bod yn ddibwys yn yr agendâu 'treftadaeth' cyfredol.

Ychydig o'r safleoedd anghyfannedd a ddynodwyd sydd ag unrhyw fath o ddynodiad diogelu (rhestru) - dim ond un o'r adeiladau a ddynodwyd yn rhestredig. Hyd yma, nid oes yr un yn ymddangos ar y 'rhestrau lleol' (hyd yma, mae'r rhain ond wedi'u cwblhau ar gyfer ardaloedd dwyreiniol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Heb ddiogelwch, mae'r safleoedd anghyfannedd hyn yn ddiamddiffyn iawn a byddant yn parhau i ddirywio. Mae'r bygythiadau'n niferus - esgeulustod, diffyg dealltwriaeth, arferion amaethyddol cyfredol, pwysau datblygu, cynaeafu deunyddiau (yn enwedig carreg) i'w hailddefnyddio.

Pan fyddan nhw wedi mynd, ni ellir eu disodli na'u hadfer, ond hwyrach na fydd rhagor o ddeddfwriaeth yn helpu. Yn aml, mae'n achosi chwerwder mewn cymunedau sy'n teimlo bod yr adeiladau hyn yn eiddo iddynt hwy. Mae'n bosibl mai eu gobaith gorau am ddiogelwch yw dealltwriaeth ac ymgysylltiad wrth y bobl sy'n byw gyda nhw ac *yn* y rhai sydd wedi goroesi, sef y gymuned leol.

Wrth reswm, mae ymwneud y gymuned yn hollbwysig, ond ni ellir ei orfodi na'i ruthro. Er y cafodd aelodau'r gymuned eu hannog i rannu atgofion a straeon lleol am adeiladau a'r dirwedd leol, roedd yr amserlen i gyflawni hyn yn rhy fyr. Gallai'r agwedd hon gael ei datblygu ymhellach gyda rhagor o amser. Ceir cysylltiadau sylfaenol rhwng iaith (sy'n cynnwys enwau lleoedd), tirwedd, adeiladau a'r atgofion cysylltiedig sydd gan bobl leol, ac nid oes amheuaeth bod gan y gymuned ffermio, yn enwedig y cenedlaethau hŷn sydd wedi byw ac wedi gweithio yn yr ardal, wybodaeth am yr adeiladau a'u

tirwedd sydd heb ei chynnwys yn unrhyw le arall. Mae amser yn rhedeg allan i gofnodi'r wybodaeth hon er mwyn iddi gael y gydnabyddiaeth mae'n ei haeddu ac nad yw'n cael ei cholli i hanes.

### Pam y mae'r adeiladau hyn yn berthnasol?

Mae'n hawdd gweld pam y caiff yr adeiladau hyn (a'r safleoedd lle safodd adeiladau ar un tro) eu diystyru, oherwydd yn unigol, gallant ymddangos yn fach ac yn weddol anarwyddocaol. Fodd bynnag, fel grŵp, cynrychiolant ran enfawr ac arwyddocaol iawn o hanes cymdeithasol Cymru - gyda'i gilydd bydd eu colli, a cholli'r wybodaeth gysylltiedig yn golled enfawr. Canolbwyntiodd y rhaglen fapio ar y rhai a breswyliwyd ar ddiwedd y 19eg ganrif ac ar ddechrau'r 20fed ganrif. Fodd bynnag, mae gan lawer o'r adeiladau a ddynodwyd (boed yn unigol neu'n rhannau o ffermydd) a nodweddion tirwedd cysylltiedig ddyfnder amser gwych. Tystiwyd yr hanes hwn gan ddilyniannau cymhleth o ddatblygiad adeiladau a nodweddion cloddwaith, lle gallai astudiaeth bellach fwrw goleuni ar rywfaint o hanes Cymru sy'n anos ei gyrraedd.

Gall casgliadau o ddogfennau a ffotograffau ddangos i ni sut roedd tai'n edrych yn gyffredinol, ond ceir ynddynt ddiffyg gwybodaeth gyd-destunol a'r cysylltiadau â thirwedd a geir o gofnodi'r adeiladau hyn lle maen nhw'n sefyll (ac yn cwympo). Mae'r hyn a gollwn heb gofnod yn diflannu'n gyflym iawn, ac er gwaethaf ymdrechion cyrff cyhoeddus fel Cadw, Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, y Cofnod Henebion Cenedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, nid oes neb mewn sefyllfa i ddiogelu'r swm penodol hwn o wybodaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae a wnelo'r adeiladau gwerinol anghyfannedd hyn â mwy na hanes. Gall y rhai sydd wedi parhau mewn cyflwr heb ei newid lywio triniaeth briodol y rhai sy'n goroesi ac sy'n parhau i gael eu preswylio neu eu defnyddio. Mae gan y cartrefi a gynrychiolir gan y twmpathau a anghofiwyd yn y caeau ac wrth ymyl y ffordd berthnasedd uniongyrchol hefyd i'r angen modern iawn am gynaliadwyedd o ran deunyddiau adeiladu ac arfer. Ni ddyluniwyd yr adeiladau hyn y tu hwnt i anghenion sylfaenol bodolaeth o ddydd i ddydd, ond mae eu defnydd o ddeunyddiau lleol, wedi'u tyfu adref, y mae'n bosibl eu hailddefnyddio, eu hailgylchu ac sy'n bydradwy yn y pen draw, yn dangos ffyrdd potensial ymlaen ar gyfer tai mewn poblogaeth sy'n tyfu mewn adeiladau sy'n wirioneddol 'gynaliadwy' o ran disgwyliad oes, defnydd ynni a dadfeiliad diwedd bywyd. Cyflawnwyd yr uchelgeisiau hyn yn syml ac yn goeth gan eicon diwylliannol sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru, sef cartrefi bach gwerinol cefn gwlad Cymru. Ni ddylem anwybyddu'r 'modelau bach ond perffaith' hyn ar gyfer arfer adeiladu cynaliadwy!

Cwmpasodd yr astudiaeth hon ardal gymharol fach ond mae wedi amlygu nifer enfawr y safleoedd nas cofnodwyd yn flaenorol o'r math hwn. Mae hyn bron yn gynrychioliadol o sawl rhan arall o Gymru wledig yn ddi-os, ac felly mae'r fethodoleg a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwn yn uniongyrchol berthnasol i ardaloedd eraill.

Mae rhaglen fapio ABC wedi dechrau coladu rhagor o wybodaeth fanwl ar sawl safle newydd, a dal gwybodaeth leol gysylltiedig, ond mae cymaint i'w wneud o hyd, ac mae angen ei wneud yn fuan iawn. Gallai hyd yn oed parhad o'r rhaglen fapio yn yr ardal sydd eisoes wedi'i chwmpasu roi cyfleoedd i ychwanegu at y wybodaeth a gasglwyd a'i gwella, a gellir ei chyflawni trwy gyfranogiad gan wirfoddolwyr cymunedol (ymchwil wrth y ddesg, ymweliadau maes a chofnodi adeiladau). Y gobaith yw y bydd yr ymchwil hon yn cynnig sail ar gyfer, ac ysgogiad i ymchwil a chofnodi pellach.

Bydd mwy o wybodaeth o'r math hwn yn helpu dod o hyd i ffyrdd o edrych ar ôl yr agwedd bwysig hon ar amgylchedd hanesyddol Cymru. Y gobaith yw y bydd codi ymwybyddiaeth o adeiladau gwerinol anghyfannedd yn tanlinellu pwysigrwydd gofalu am y rhai sy'n goroesi ac sy'n parhau i gael eu defnyddio, a helpu diogelu treftadaeth werinol Cymru rhag dirywio yn sgil diffyg cydnabyddiaeth a dealltwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau dynodedig a'r safleoedd a breswyliwyd gan adeiladau ar un tro yn cynrychioli treftadaeth 'mewn perygl'. Mae'r *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* wedi dangos o'r adeiladau anghyfannedd oedd yn gartrefi ar ddiwedd y 19$^{eg}$ ganrif ac ar ddechrau'r 20$^{fed}$ ganrif, bod llawer ohonynt wedi'u colli'n llwyr; prin fod gan rai unrhyw weddillion uwchlaw'r tir sydd wedi goroesi. Mae cyflwr gweddillion yr adeiladau sydd ar eu traed yn gwaethygu'n gyflym iawn. Nid yw eu harwyddocâd a'u gwerth fel rhan o'r dirwedd hanesyddol ehangach yn cael eu cydnabod ar raddfa eang, er gwaetha'u pwysigrwydd diwylliannol clir.

Gobaith ABC yw y bydd y *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* a'r *Prosiect Treftadaeth Llawr Gwlad* ehangach yn gwneud ychydig i gywiro'r sefyllfa hon. Dylem fod yn falch iawn o'n treftadaeth werinol ar ffurf adeiladau yng Nghymru, nid dim ond oherwydd yr hyn a fu yn y gorffennol ond hefyd am y cyfleoedd a gynrychiola i'r dyfodol.

## Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i'n cyllidwyr: Quaker Housing Trust, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog, y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru a'r Pilgrim Trust oherwydd heb y cymorth ariannol hwn, ni allai'r prosiect hwn fod wedi digwydd, a diolch hefyd i'r sefydliadau sydd wedi rhoi cefnogaeth 'mewn ffyrdd eraill' i'r prosiect ar ffurf adnoddau ac offer, yn enwedig YAD a Chanolfan Tywi.

Diolch yn fawr i'n bwrdd ymddiriedolwyr ymroddedig a brwdfrydig: Joanie Speers, Roger Mears, Anjuli Quartermaine, Louise Schlee, Joyce Morgan-Gervis, i'n cyn gyfarwyddwyr gweithredol Lowri a Nathan Goss, ac i'n Swyddogion Prosiect Nell Hellier a Helena Burke. Diolch hefyd i'n cyfieithwyr gwych Melanie Davies a Cerys Jones. Diolch i Alice Thorne o PCBB a pawb o PCBB sydd wedi helpu.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r staff a'r cydweithwyr yn YAD: Alice Pyper, Marion Shiner, Menna Bell, Ken Murphy, Huw Pritchard ac eraill sydd wedi mynd y tu hwnt i'r galw i gynnig cymorth, arweiniad ac ysbrydoliaeth ar hyd y prosiect. Hoffwn ddiolch hefyd i Menna a Huw am helpu gwneud y diwrnodau cofnodi adeiladau cymunedol yn llwyddiant.

Diolch yn fawr hefyd i'r nifer fawr o bobl o'r cymunedau yn ardal yr astudiaeth sydd wedi rhoi help, cymorth a gwybodaeth - yn enwedig Emlyn a Mair, Aled a'i fam Heather, Mrs. Bethan Jones (Llwynmeredydd), Llinos Davies a Bethan (Aberdyfnant). Diolch i Dafydd Evans (perchennog Llanerch-goch), a hefyd i berchennog Tyle Bach, am eu caniatâd i gofnodi eu hadeiladau gwych gyda chymorth y gwirfoddolwyr. Diolch hefyd i Mr a Mrs Robert Owen o Fferm Penywaun am eu cymorth a'u lletygarwch, ac i berchennog Fferm Lan, sef Richard Stevenson am ei ganiatâd a'i gefnogaeth i gofnodi adeiladau cymunedol yno.

Diolch yn fawr iawn i'n gwirfoddolwyr gwych sydd wedi rhoi o'u hamser i fod yn rhan o'r prosiect ac wrth helpu cofnodi a gwella'n dealltwriaeth o'r adeiladau hyn: Amanda Price, Martin Davies, Sara Tommerup, Arthur Philips, Robert Hopkins, Luke O'Hanlon, Joe Moriarty, Peter Arnold, Sam Goggins, Alexandra Powell, Ruth Judge, Jane Carter, Caralinda Jeffries, Duncan Schlee, Roger a Leslie Milne, Lawrence Jones, Torin, Jake a Leon Whitear, Yr Athro Peter Matthiessen.

## Ffynonellau y trowyd atynt a llyfryddiaeth


Local Historic Environment Record (curated and maintained by Dyfed Archaeological Trust)

Google Street View and Satellite Imagery © 2016

Next Perspectives: 2004 High Resolution Aerial Photography

Ordnance Survey 1891 1st edition, 1 : 2500, Carmarthenshire (various sheets)

Ordnance Survey 1906 2nd edition, 1 : 2500, Carmarthenshire (various sheets)

Ordnance Survey: 2013 Mastermap, 1:2500

Ordnance Survey: 2016 OpenData "Buildings" layer, 1:2500

Wiliam, E. 1986: "The Historical Farm Buildings of Wales". John Donald Publishers LTD. Edinburgh

Hughes, R. I. & O'Leary, P. 1999: "Wales of one hundred years ago". National Library of Wales. Sutton Publishing Ltd. Glos.

Historic England Guidance Note (publ. May 2016): "Understanding Historic Buildings: A Guide to Good Recording Practice"

James, D. B., 1991: "Myddfai: Its Land and Peoples". Published by the author

Roberts, K. (Ed) 2006: Cadw "Lost farmsteads. Deserted rural settlements in Wales." Council for British Archaeology (CBA) research report 148

Ward, A. 1997: "Transhumance and Settlement on the Welsh Uplands: A View from the Black Mountain" in Edwards, N. Ed. *Landscape and Settlement in Medieval Wales* Oxbow Monograph 81 pp. 97 – 111

Swallow, P., Dallas, R., Jackson, S. and Watt, D. 2004: "Measurement and Recording of Historic Buildings" 2nd. Edition Donhead Publ. Dorset

Vejby, M. and Ahlers, J. 2013: 14 "Land, myth and language: the preservation of social memories" in Adrian M. Chadwick and Catriona D. Gibson (Eds) 2013 *Memory, myth and long-term landscape inhabitation*. Oxbow Books pp. 276 - 290

Davies, J. & Horák, J. 2009: "Building Stone Use in the Brecon Beacons National Park" Amgueddfa Cymru – National Museum of Wales

Davies, M. Ed. 1992: "The Valleys Autobiography – a people's history of the Garw, Llynfi and Ogmore valleys" Publ. by Valley and Vale

Sambrook, P. & Ramsey, R.: The Deserted Rural Settlements Project. Archaeoleg Cambria Archaeology unpublished report

Sambrook, P. & Page, N.: The Historic Settlements of Dinefwr. Dyfed Arcaheological Trust unpublished report March 1995

The Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Scotland 2011: "Scotland's Rural Past: Community Archaeology in Action" RCAHMS Edinburgh

The Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Scotland 2011: "Scotland's Rural Past: A Practical Guide to Recording Archaeological Sites" RCAHMS Edinburgh